Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw

Caneuon Ffydd: Rhif 756

Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw,
yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy'.

Gad imi fyw, ynghanol pob rhyw bla,
dan gysgod clyd adenydd Iesu da;
a'm tegwch gwir fel olewydden wiw
o blaniad teg daionus Ysbryd Duw.

1 ANN GRIFFITHS, 1776–1805
2 ANAD.

MYFYRDOD

Awydd i fod yn ffrwythlon sydd gan Ann Griffiths ym mhennill cyntaf ein hemyn. Ond fe ŵyr cystal â neb fod yn rhaid wrth dir da wedi ei ddyfrio a'i wrteithio er mwyn i blanhigyn ddwyn ffrwyth. Mae Ann yn troi addewid Duw yn y Salm gyntaf, 'efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynnag a wnêl, efe a lwydda' (Salm 1:3, BWM), yn weddi iddi hi ei hun. Mae'r addewid yn ddibynnol ar barodrwydd un i fod â'i ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos (ad.2). A wyddom ni am unrhyw un oedd yn fwy parod nag Ann Griffiths ei hun i 'fyfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos'? Roedd dail y pren yn parhau heb wywo am fod y pren wedi ei wreiddio'n ddwfn ac yn sugno dŵr o'r 'afonydd dyfroedd byw' yn nodd iddo'i hun. Y Beibl yw nodd Ann ac mae hi'n sugno'n helaeth ohono. Diau bod cyfeiriad yma hefyd at weledigaeth Eseciel (pennod 47), lle mae'r dŵr yn llifo'n afon gref o dan drothwy'r

deml ac yn dyfrhau pob math o goedydd a'u 'ffrwyth yn ymborth, a'i ddalen yn feddyginiaeth' (Eseciel 47:12). Roedd proffwydoliaeth o'r fath am ddyfroedd yn llifo ac yn bendithio, yn rhagfynegi gwaith yr Ysbryd Glân ym mywydau credinwyr y Testament Newydd. Os yw'r dŵr bywiol, adnewyddol hwn am gael effaith, yna mae'n rhaid iddo ein cyrraedd ni, y rhai sydd wedi'n plannu ar ei lan, a llifo trwom er mwyn cyrraedd ein cenhedlaeth ninnau megis cenhedlaeth Ann.

Gwyddai Ann hefyd y byddai'r rhai a 'blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd' (Salm 92:13) yn blodeuo ac yn ffrwytho iddo yn eu hen ddyddiau, ond chafodd Ann ddim byw i weld cyflawni'r addewid hwnnw. Priododd â Thomas Griffiths o Feifod ar 10 Hydref 1804, ond am ddeng mis yn unig y bu hi'n briod â'i gŵr, a ddaeth i fyw ati hi i Ddolwar Fach gan ei bod erbyn hyn yn ferch ifanc amddifad. Bu'n briodas hynod o hapus er mai ber oedd hi. Ganed merch iddyn nhw ymhen y deng mis, ond bu farw'r fechan yn bythefnos oed, a bu Ann farw'n union ar ei hôl a hithau ond yn naw ar hugain mlwydd oed. Fe'i claddwyd y 12fed o Awst, 1805.

Er tristwch yr hanes hwn a oedd yn rhy gyffredin o lawer y dyddiau hynny, yr ydym ni'n diolch heddiw am Ann:

Hithau a enwaf weithian:
Y danbaid, fendigaid Ann,

fel y canodd J. T. Job wrth ddiolch i Dduw amdani yn ei awdl i'r emyn ac emynwyr Cymru, 'Eu Nêr a Folant', ym 1918. Yn nawdegau'r ddeunawfed ganrif bu Ann dan weinidogaeth y Methodistiaid oedd yn codi yn Sir Drefaldwyn gan brofi'n fuan o'r ailenedigaeth, profiad a fu'n ganolbwynt ei meddwl oddi ar hynny ac a roddodd i ni ffrwyth hyfryd ei hemynau 'dan gawodydd dwyfol glwy'.

GWEDDI

O Dad nefol, yr wyt ti'n disgwyl ffrwyth gan bob un o'th blant. Bydded inni fwrw'n gwreiddiau yn ddwfn ynot ti er mwyn tynnu o'th nodd, fel na wywa ein dail o dan ddylanwadau'r byd o'n cwmpas, ac y cynyddo ein ffrwyth er clod a gogoniant i dy Fab. Amen.